O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2012 Rhif 366 (Cy. 61)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Dolau Gwynion, Ger Llanymddyfri, Sir Gaerfyrddin) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Dros Dro ar Draffig) 2012

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *14 Chwefror 2012* |
| *Yn dod i rym* | *20 Chwefror 2012* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Rhaglan – Llanymddyfri (A40) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd a chyfyngu ar draffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei gyflawni arno.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), a phob pŵer galluogi arall(**2**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 20 Chwefror 2012. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Dolau Gwynion, Ger Llanymddyfri, Sir Gaerfyrddin) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Dros Dro ar Draffig) 2012.

**2.** —1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith," *("works period")* yw'r cyfnod hwnnw a fydd yn cychwyn am 08.00 o'r gloch ar 20 Chwefror 2012 ac a ddaw i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro'n cael eu symud ymaith yn barhaol.

ystyr "y darn o'r gefnffordd" *("the length of the trunk road")* yw'r darn o'r gefnffordd ger Llanymddyfri, yn Sir Gaerfyrddin, sy'n ymestyn o bwynt 640 metr i'r dwyrain o'r lôn fynedfa breifat i Ddolau Gwynion, i'r dwyrain o Lanymddyfri, hyd at bwynt 10 metr i'r dwyrain o'r lôn fynedfa breifat honno;

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.